OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 49 (Cy.17) (C.5)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 14 Ionawr 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 181 a 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009.

Y diwrnod penodedig

2. Mae adran 55 (Hawl disgyblion chweched dosbarth i gael eu hesgusodi rhag mynychu addoliad crefyddol) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i ddod i rym ar 9 Chwefror 2009 o ran Cymru.

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

14 Ionawr 2009

(**1**) 2006 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).